

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu Remote Microsoft Teams Meeting Dydd Iau, 21ain Ionawr, 2021 at 10.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL

Cynghorydd Sirol P.Pavia (Chairman)
Cynghorydd Sirol (Vice Chairman)

Cynghorydd Sirol: J.Becker, R.Roden, B. Strong
and P. Murphy

SWYDDOGION YN BRESENNOL

Frances O'Brien, Prif Swyddog, Menter
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Dave Loder, Rheolwr Cyllid
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Sirol A.Davies and D. Dovey

1. Datganiadau o Fuddiant.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Monitro'r Gyllideb: Craffu ar sefyllfa cyfalaf a referniw monitro'r gyllideb ym Mis 7, gan osod y cyd-destun ar gyfer craffu ar gynigion y gyllideb.

Cyflwynodd Jonathan Davies, Dave Loder a Frances O'Brien yr adroddiad ac fe wnaethant ateb cwestiynau'r aelodau.

Herio:

Doedd dim modd gweithredu rhai o'r arbedion nad ydynt yn rhai Covid oherwydd bod staff wedi symud i rolau Covid. Sut y penderfynwyd ar wariant sy'n gysylltiedig â Covid a gwariant nad yw'n gysylltiedig â Covid? A allem hawlio mwy o grantiau?

Mae gwahanu'r hyn a ddiffinnir fel gwariant Covid a gwariant nad yw'n wariant covid yn gymhleth. Mae gennym rai amodau a rheolau gan Lywodraeth Cymru. Rhaid priodoli'r costau a'r colledion incwm hynny'n uniongyrchol i'n hymateb pandemig. Ceir effeithiau anuniongyrchol hefyd: un o'r rhain yw gallu'r gwasanaethau i gyflawni'r arbedion y cyllidebwyd ar eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol. Lle mae staff ac adnoddau wedi'u dargyfeirio i gymorth rheng flaen, nid ydynt wedi gallu canolbwyntio ar gyflawni'r arbedion hynny. Mae adroddiad Mis 9 yn cael ei lunio nawr: mae gwasanaethau wedi'u cyllidebu ar hyn o bryd i wneud dros £4m o arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau; y rhagolwg presennol yw na fydd £732 mil o'r rheini'n cael eu cyflawni. Mae hynny'n bwysau awtomatig ar y gyllideb ar gyfer eleni, ac i'r flwyddyn nesaf. O ran cymorth

ychwanegol, rydym yn dilyn i fyny gyda Llywodraeth Cymru lle mae grantiau a chymorth ychwanegol ar gael. Yn ogystal â chymorth busnes, bydd rhai ym meysydd celf a diwylliant. Mae nifer o lwybrau ychwanegol i fynd i lawr er mwyn cefnogi'r costau a'r colledion ychwanegol hynny.

Mae'r golled incwm o MonLife yn dod â nifer o heriau. Beth yw'r seilwaith adeiladu cynnar o ran adferiad?

Un o'r pethau y mae MonLife yn edrych arno yw ailagor. Mae'r brandio a'r marchnata yn barod fel bod ganddynt gynnyrch cryf pan fyddant yn gallu ailagor. Un anhawster yw agor a chau'n barhaus – weithiau mae'n haws gwybod eich bod yn mynd i fod ar gau, yna pan fyddwch yn ailagor gallwch wneud hynny'n hyderus. Yn ein deialog gydag Ian Saunders, y Prif Swyddog sy'n goruchwyllo MonLife, gallwn weld, o ystyried effeithiau Covid ar iechyd a lles pobl, y bydd angen i ni ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y tymor hir fel y gall pobl fod yn heini ac yn iach eto. Bydd gwasanaethau hamdden yn chwarae rhan sylfaenol yn yr adferiad hwnnw. Mae MonLife yn hyderus y gall ail-rwymo; dim ond y cyfnod y bydd yr adferiad yn ei gymryd. Dywed rhai y bydd yn cymryd 2 flynedd, ac efallai y bydd cynllun adferiad hir i gael y gwasanaethau hynny'n ôl i'r lle yr oeddent o'r blaen.

A fu trafodaethau cychwynol gyda'r Bwrdd Iechyd i fapio darlun o'r cymorth y bydd ei angen ar ôl Covid?

Ydyw, mae'n bwysig ystyried y rôl y gallwn ei darparu, boed hynny'n hwyluso drwy ein rhwydwaith cymorth cymunedol neu wasanaethau MonLife. Mae tîm MonLife wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r gwasanaethau i blant, fel y mae ein cydweithwyr PPI yn ymwneud â'r rôl y gall addysg awyr agored ei chwarae yn y dyfodol i hwyluso dysgu a darpariaeth amgen. Felly mae llawer o gyfleoedd i'r gwasanaethau. Un ffocws allweddol fydd gweithio mewn ffordd rwydweithiol.

Mae'n ymddangos ein bod yn rheoli Porth y Castell yn dda. A fu trafodaethau pellach gyda Cineworld yng Nghasnewydd ynghylch ailagor, neu unrhyw fanylion pellach o ran rhyddhad rhent?

Byddai'r swyddog sy'n delio â hynny, Debra Hill-Howells, yn gallu rhoi ateb manwl ond nid yw hi yn y cyfarfod hwn. Rydym yn cael problemau gyda Pharc Hamdden Casnewydd, gan mai manwerthu a hamdden yw'r safle yn bennaf. Rydym yn hawlio unrhyw golled incwm oddi wrth Lywodraeth Cymru ar yr enillion chwarterol. O ran Cineworld, nid wyf yn credu bod unrhyw risg uniongyrchol o unrhyw broblemau, o ran eu bod yn aros ar y safle.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd am gostau Covid yn cael eu talu – pa fath o sicrwydd fu hynny?

Rhoddodd y cyhoeddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd yr hydref, a oedd yn manylu ar becyn cymorth pellach gan gynnwys llywodraeth leol a'r Gronfa Caledi gysylltiedig, hyder ychwanegol i ni y byddai'r gwariant ychwanegol a'r colledion incwm yn cael eu cwmpasu. Drwy sgysiau ein Harweinydd gyda Llywodraeth Cymru a'r

fforymau y mae'n eistedd arnynt, a chyda gweision sifil yn Llywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl i hynny fynd drwodd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Y gwir ffocws i ni, o ran cynllunio, yw sut olwg sydd ar y gefnogaeth honno wrth i ni symud tu hwnt i fis Mawrth. Mae'r pandemig yn mynd i ddod i ben ddiwedd mis Mawrth, felly mae angen i ni gynllunio ar gyfer hynny a chael rhywfaint o sicrwydd ynghylch sut y bydd y gronfa gymorth honno'n edrych wrth i ni symud i'r flwyddyn ariannol newydd.

*A ystyriwyd llwybrau eraill, o ran yr hyn y gallwn ei werthu? e.e. Amgueddfeydd? **Ar-lein?***

Mae'r incwm a wnawn o werthiannau mewn canolfannau croeso ac amgueddfeydd yn fach iawn. Nid ystyriwyd bod y gost o sefydlu gwasanaeth ar-lein neu glicio a chasglu ar gyfer y mathau hynny o bethau yn ddichonadwy. Yn ystod y cyfyngiadau symud a Covid, mae'r tîm wedi parhau i adolygu'r arteffactau yn ein hamgueddfeydd, ac yn mynd drwy broses o nodi a oes angen eu cadw neu eu gwaredu. Felly dydyn nhw ddim ar y pwynt eto lle mae eitemau'n cael eu gwerthu, ond rydyn ni'n mynd drwy'r broses – mae degau o filoedd o arteffactau ar draws yr amgueddfeydd ac mewn storffeydd. Mae gan y tîm hefyd ffrwd ariannu o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i edrych ar y straeon y mae angen eu hadrodd yn yr amgueddfeydd – sydd hefyd yn helpu i nodi pa eitemau i'w harddangos. Mae'r gwaith hwn wedi parhau yn y cefndir wrth i ni ddelio â'r pandemig.

O ran y pwysau cyllidebol nad yw'n ymwneud â Covid a grybwyllir yn 3.18, a ellid nodi rhai o'r arbedion untro yn y maes portffolio hwn?

Mae gennym lawer o swyddi gwag o fewn y gwasanaethau. Mae rheolwyr yn dewis rhewi'r swyddi hynny oherwydd eu bod yn ymwybodol bod angen i ni gau'r bwlch, fel awdurdod. Mae oedi ar gyfer y CDLI hefyd yn dod ag arbedion, gan ein bod wedi cyllidebu ffioedd proffesiynol ac arbenigol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Rydym hefyd yn gwthio rhai costau CDLI i'r gyfarwydddeb cyfalafu, ac mae costau cydweithio'n dod allan o dwf busnes a menter, sy'n cynhyrchu arbediad staff. Felly mae staff a chyfarwydddeb cyfalafu yn gyrru'r tanwariant yn bennaf.

Pa effaith bosibl y bydd rhewi swyddi staff yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol?

Rydym wir yn dechrau sylwi ar yr effeithiau nawr. Efallai fod hynny oherwydd y galw cynyddol a'n hanallu i ymateb i'n cwsmeriaid fel y byddem yn dymuno. I gymryd Cynllunio fel enghraifft: mae sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn brydlon, ac o fewn y paramedrau yr ydym yn ceisio'u gosod, yn dechrau effeithio arnom. O fewn Priffyrdd, rydym wedi cael rhaglenni a phrosiectau sylweddol wedi'u hariannu gan grantiau, sy'n wych, ond mae'n golygu bod ein gallu i gyflawni yn gyfyngedig, neu rydym yn ei chael hi'n anodd, oherwydd nid ydym wedi llenwi'r swyddi gwag. Mae yna benderfyniad ar sail barn bob amser a ddylem eu llenwi, ond rydym nawr ar y pwynt lle mae angen i ni wneud hynny, oherwydd rydym yn dechrau gweld effaith niweidiol ar ein gallu i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae'n amlwg ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd iawn i'r awdurdod, yn ariannol. Mae effaith y pandemig yn brathu ym mhobman ond yn arbennig felly o ran y portffolio hwn. Llongyfarchiadau i swyddogion ar eu hymdrechion parhaus. Gobeithiwn y bydd y sicrwydd a roddir gan Lywodraeth Cymru yn wir yn cael ei wireddu.

4. Craffu ar y Gyllideb: Craffu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2021/22

Jonathan Davies a Dave Loder a draddododd y cyflwyniad ac atebodd gwestiynau'r aelodau, gyda Frances O'Brien. Cyflwynodd Jonathan Davies a Dave Loder yr adroddiad ac fe wnaethant ateb cwestiynau'r aelodau, gyda Frances O'Brien.

Herio:

O ystyried y drafodaeth flaenorol am rewi cyflogau a darparu gwasanaethau, a phwysau'r flwyddyn nesaf, a yw'n realistig dweud ein bod yn mynd i barhau i ddarparu ein cyfres lawn o wasanaethau?

Mae hwnnw'n gwestiwn dilys oherwydd bydd yn rhaid i ni ystyried a fydd rhai o'r gwasanaethau'n gynaliadwy yn y tymor hir, neu a ellir eu darparu mewn ffordd wahanol. Bydd angen i ni barhau i'w hadolygu dros y cynllun a'r strategaeth ariannol tymor canolig. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i beidio â gorfod cau neu newid unrhyw wasanaethau'n sylweddol, ond mae'n rhaid i ni fonitro'r sefyllfa'n barhaus a blaenoriaethu, o ran pa wasanaethau anstatudol sydd yno y byddem yn ceisio eu haddasu a'u newid. Mae'r rheini'n ystyriaethau anodd iawn i'w gwneud.

Un o'r pwysau cost nas cyllidebwyd ar ei gyfer yw ystyriaethau buddsoddi MonLife. A allwn gael rhagor o fanylion am hyn?

Nid oes gennym wybodaeth fanwl ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae'r tîm yn ystyried a ddylid gohirio rhai o'r buddsoddiadau hynny ar gyfer y dyfodol agos tra ein bod yn deall beth yw sefyllfa adfer Covid. Roedd y sleid gyflwyno yn ymwneud â'r ymrwymadau cyfalaf wrth symud ymlaen, a'r pwysau a'r buddsoddiadau hynny'n eistedd y tu allan i'r gyllideb bresennol. Mae rhestr o fuddsoddiadau posibl MonLife y byddent yn ceisio'u gwneud dros y tymor canolig, sydd ar gael yn y pecyn o bapurau a aeth i'r Cabinet ac sy'n gysylltiedig â'r agenda heddiw.

*Mae setliad Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwy hael nag erioed eleni. **Beth yw'r rhesymau dros hyn?** A oes gwersi i'w dysgu gan gynghorau eraill?*

Mae'r setliad ei hun yn cynnwys cyfrifiad eithaf cymhleth o amgylch llawer o ffactorau, y mae rhai ohonynt yn cael effeithiau uwch nag eraill. Mae un neu ddau o'r dangosyddion lle'r ydym wedi elwa y tro hwn yn ymwneud â phoblogaeth a 'chyfartalu adnoddau': mae hyn yn edrych ar allu awdurdodau i godi eu cyllid o'r dreth gyngor, ac yn cymhwyso cymhareb i addasu ar gyfer hynny ar draws awdurdodau Cymru. Mae'n anodd iawn esbonio. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio nawr i wneud y dangosydd hwnnw'n llawer cliriach i awdurdodau. Mae wedi bod yn ffactor mawr y tro hwn; mae'n debyg

bod y rhesymau dros hynny'n ystadegol, ac nid ydym yn deall y darlun llawn o hynny eto.

A yw ein mewnbwn yn effeithio ar y swm rydym yn derbyn?

Mae'r mewnbwnau wedi'u gosod ar lefel statudol felly mae'r dychweliadau a wnawn, o ran y dychweliadau ystadegol hynny i Lywodraeth Cymru, yn mynd tuag at gynhyrchu'r data hwnnw iddynt ei roi yn eu model. Nid oes gennym y gallu i newid y rheini ond mae niferoedd amrywiol o'r hyn sy'n cael eu cynnwys: niferoedd disgyblion, amcangyfrifon poblogaeth, data budd-daliadau, a'r galwadau ar ein gwasanaethau a'r poblogaethau yr ydym yn dychwelyd gwybodaeth arnynt. Felly, ychydig iawn o gyfle sydd gennym i newid neu ddylanwadu ar y ffactorau hynny – mae'n dibynnu i raddau mawr ar y dangosyddion statudol hynny y mae'n rhaid i ni adrodd yn ôl arnynt.

Beth fu'r trafodaethau ynghylch y cynllun tymor canolig ac adfer y diffyg? Beth yw ein disgwyliadau?

Mae'n ddarlun anodd iawn i weithio drwyddo mewn perthynas â'r tymor canolig. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd y gallwn eu rheoli, ac yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o eglurder ynglŷn â'r sefyllfa yn y dyfodol. Pan fydd gennym setliad blwyddyn, prin iawn yw'r cyfle i gynllunio ar ôl diwedd 2021-2022. Byddwn bob amser yn anelu at gynorthwyo a chynnal gwasanaethau – nid ydym am i wasanaethau ddiflannu. Mae llawer ohonynt yn mynd i drawsnewid a datblygu wrth i ni wella o'r pandemig e.e. sut mae canol trefi'n edrych, sut mae trigolion yn teithio, gweithio gartref, ac ati. Mae gweithgorau amrywiol wedi'u sefydlu i edrych ar y pethau hyn. Y pwynt allweddol yw rhoi pwysau ar lefel wleidyddol yn ôl ar Lywodraeth Cymru i egluro sut y bydd ein cyllid yn dod drwodd yn y setliad tymor hwy.

A yw ein Swyddog Adran 151 (Peter Davies) wedi codi unrhyw bryderon ynghylch tynnu lawr y cronfeydd wrth gefn?

Mae ein swyddog wedi gorfod ystyried hynny wrth i ni ddatblygu'r cynigion hyn. Mae llawer o'r cronfeydd wrth gefn a balansau cronfeydd y cyngor yn gyfyngedig. Rydym wedi elwa o sefyllfa alldro 2019-20 – roeddem yn gallu cryfhau cronfa'r cyngor £1.8m. Rhoddodd hyn ryw faint o hyblygrwydd i ni ddelio â'r pwysau covid a phwysau nad ydynt yn rhai Covid a ddaw yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'n bwysig nodi, er i hynny gynyddu £1.8m, ei fod yn dal i ddod â ni i lefel ganol ar gronfa'r cyngor wrth gefn, o'i gymharu ag ar draws awdurdodau Cymru. Rydym yn cynnig defnyddio £750 mil o'r gronfa gyngor honno, sy'n ddefnydd untro'n unig. Pan ddywedwn nad yw'n gynaliadwy cynnal hynny, os byddwn yn ei ddefnyddio ac nad ydym wedyn yn ychwanegu at y gronfa honno ar ddiwedd y flwyddyn, mae'n gylch parhaus yn y gostyngiad yn y balansau hynny, ac yn rhoi cyfleoedd cyfyngedig i ni gefnogi'r gyllideb pan mai ein hunig opsiynau ymarferol eraill o ariannu'r blaenoriaethau hynny yw'r dreth gyngor a setliad Llywodraeth Cymru. Fesul pen, rydym yn dal i fod ar waelod y cyllid hwnnw.

Crynodeb y Cadeirydd:

Rydym wedi ymdrin â'r effaith ar incwm, sydd wedi cael effaith sylweddol ar gynllunio cyllidebau. Mae'r gwahanol lefelau o ansicrwydd mewn perthynas â llywodraeth ganolog yn her i ni fapio sut olwg yn ariannol fydd ar y blynyddoedd nesaf. Nid oes argymhellion penodol ond gallwn roi adborth cyffredinol, fel pwyllgor. Bydd yr Aelod Cabinet Phil Murphy yn codi'r pwyntiau a'r cwestiynau a godwyd gan aelodau heddiw.

5. Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygu.

Mae fformat y noson ar gyfer gweithdai wedi gweithio'n dda iawn. Bydd angen codi caffael yn ddiweddarach eleni, ar ôl cael ei roi i un ochr oherwydd y pandemig. Byddai'n fuddiol clywed oddi wrth Kelly Byrne, Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Caerdydd, yn ystod y misoedd nesaf. Nodwch fod yr adolygiad maes parcio gyda Chymunedau Cryf wedi'i ohirio dros dro oherwydd pwysau Covid a'r llifogydd, ond byddwn yn ailedrych ar y pwnc pwysig hwn yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Bydd ystyriaeth o lifogydd yn cael ei hychwanegu at y cynllunydd hefyd; awgrymodd y Cynghorydd Becker efallai gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio cyfnewid gwres yn ein hafonydd i ostwng ein hól troed carbon.

6. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

8. Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 25 Chwefror 2021 am 10.00am.

The meeting ended at **Time Not Specified**